stori

GWASANAETHAU HYFFORDDI

LLYFRYN

Dechrau pennod newydd

Tabl Cynnwys



Ein Stori	04
Ein Gwasanaethau Hyfforddi	05
Cwrdd â'n Tîm	06
Ein Prisiau	08
Ein Cyrsiau	09
Cam-drin Domestig a Diogelu	10
Iechyd Meddwl a Llesiant	15
Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Cymru	18
Diwylliant a Gwerthoedd Sefydliadol	19
Pam Dewis Stori	22
Hyfforddiant Pwrpaso	23

stori

Ein Stori

Rydym yn Gymdeithas Tai nid-er-elw sy'n darparu cymorth arbenigol i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig; teuluoedd; plant a phobl ifanc; a'r rheiny sy'n profi afiechyd meddwl.

Dechreuodd ein taith ym 1989 fel y sefydliad cyntaf yng Nghymru i ddarparu tai a chymorth arbenigol i ddioddefwyr cam-drin domestig. Ers hynny, rydym wedi datblygu i ddarparu tai arbenigol a chymorth ystyrlon o drawma i unigolion, teuluoedd, plant a phobl ifanc ledled Cymru gyfan sydd wedi profi heriau anodd yn eu bywydau.

Ynghyd â'n gwasanaethau tai a chymorth, rydym hefyd yn darparu hyfforddiant arbenigol. Rydym yn defnyddio ein profiad rheng flaen i ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel, ystyrlon o drawma i weithwyr proffesiynol, cymunedau a sefydliadau partner.

Rydym wastad wedi canolbwyntio ar rymuso pobl i ddatblygu eu hyder, eu sgiliau, eu hunan-barch a'u hannibyniaeth eu hunain, gan eu galluogi i gyflawni eu nodau personol a byw bywydau boddhaus.

Trwy Gymorth Tai
Trwy Gymorth lle bo'r Angen
Trwy Gymorth Cyflogadwyedd
Trwy Hyfforddiant
Trwy Ysgolion

Ein Gwasanaethau Hyfforddi

Yn Stori, rydym yn darparu hyfforddiant wedi'i lunio gan brofiad byw ac arbenigedd rheng flaen. Mae ein rhaglenni wedi'u hadeiladu o amgylch yr hyn sy'n gweithio, nid yn unig mewn theori, ond yn ymarferol hefyd.

Gyda degawdau o brofiad o gefnogi pobl ledled Cymru, rydym yn deall yr heriau y mae timau'n eu hwynebu. Dyna pam mae ein hyfforddiant yn ymarferol, yn hyblyg, ac wedi'i seilio bob amser ar sefyllfaoedd byd go iawn.

O ddiogelu i ofal ystyrlon o drawma, rydym yn helpu sefydliadau i feithrin yr hyder, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i wneud gwahaniaeth parhaol.

Oherwydd pan fydd pobl yn teimlo bod y cyfarpar ganddynt, maent yn teimlo'n rymus, a dyna pryd mae newid go iawn yn digwydd.

Archebwch Eich Hyfforddiant Heddiw

I archebu un o'n cyrsiau, neu am ragor o wybodaeth, neu i gael dyfynbris heb rwymedigaeth, cysylltwch â'n tîm cyfeillgar yn Learn@storicymru.org.uk neu defnyddiwch y ffurflen ymholiadau ar ein gwefan. Byddwn yn hapus i'ch cynorthwyo gydag unrhyw gwestiynau a'ch helpu i ddod o hyd i'r hyfforddiant sy'n gweddu orau i'ch anghenion.

Cwrdd â'n Hyfforddwyr

Ann-Marie Curtis

Rheolwr Hyfforddi a Datblygu

Mae Ann-Marie wedi bod yn aelod gwerthfawr o'n tîm ers dros 21 mlynedd, gan gychwyn ei thaith fel ymarferydd rheng flaen yn cefnogi cleientiaid ag anghenion sy'n cyd-ddigwydd ac anghenion lluosog.

Fel ein Rheolwr Hyfforddi a Datblygu, mae Ann-Marie yn frwd dros bontio damcaniaeth ac ymarfer, gan sicrhau bod dysgu Stori yn parhau i fod yn effeithiol ac yn berthnasol i'r rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen. Mae ganddi gymhwyster addysgu Lefel 4, bu'n hwyluso gwaith grŵp ers 2009, yn ogystal â bod yn asesydd tra phrofiadol.

Mae Ann-Marie wedi ymrwymo'n ddwfn i greu newid ystyrlon a sicrhau bod ein gwasanaethau yn darparu cymorth ac effeithiol pan mae ei angen fwyaf.

Gwilym Roberts

Uwch Swyddog Hyfforddi

Mae Gwilym wedi bod yn cyflwyno hyfforddiant ers degawdau. Mae'n gwnselydd profiadol ac yn hwylusydd grwpiau, gan arbenigo mewn trawma; materion rhywedd a rhywioldeb a niwroamrywiaeth.

Mae Stori'n elwa o'i brofiad proffesiynol i hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth; iechyd meddwl; niwroamrywiaeth; trais rhywiol a cham-drin domestig. Mae ganddo ddiddordeb arbennig mewn gweithio gyda dioddefwyr gwrywaidd; goroeswyr LHDTC a gweithio gyda throseddwyr.

Jess Shingler-Hobson

Uwch Swyddog Hyfforddi

Mae Jess wedi gweithio ym maes addysg a hyfforddiant ers 15 mlynedd, gan ddechrau mewn addysg gynradd cyn symud i leoliadau ôl-16, gan gynnwys colegau a phrifysgolion. Mae ei chefndir wedi'i wreiddio mewn diogelu plant ac oedolion.

Mae Jess hefyd wedi cefnogi teuluoedd mewn llochesi ledled Gogledd Cymru, gan helpu plant i fynegi eu teimladau trwy therapi chwarae a hwyluso eu cyfnodau pontio rhwng cartref, lloches ac ysgol.

Yn Stori, mae hi'n cyflwyno amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys Gofyn a Gweithredu (Grwpiau 2 a 3), Gofyn a Gweithredu Ieuenctid, CAPVA, a hyfforddiant ar gam-drin domestig, stelcio, ac aflonyddu ar y stryd.

Elizabeth Stokes

Uwch Swyddog Hyfforddi

Mae Elizabeth yn athrawes, hyfforddwraig, asesydd ac Aswiriwr Ansawdd Mewnol brofiadol. Mae hi wedi cyflwyno hyfforddiant mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys yn y gweithle ac mewn tai â chymorth a llochesi.

Mae hi'n awyddus i gefnogi eraill i adeiladu ar eu sgiliau proffesiynol a'u hyder a'u datblygu ymhellach. Mae Elizabeth hefyd wedi gweithio'n agos gyda chyflogwyr i godi ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig ac i ddiwallu anghenion hyfforddi staff.



Nid oes rhaid dyfalu beth yw'r prisiau mwyach gan ein bod yn cynnig pob cwrs a ddatblygwyd gan Stori am bris sefydlog a thryloyw.

P'un a ydym yn cyflwyno cynnwys ar-lein neu mewn person, mae ein cyrsiau'n darparu gwerth rhagorol am arian heb beryglu ansawdd. Heb unrhyw ffioedd cudd na strwythurau prisio cymhleth, gallwch gynllunio'n hyderus a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig, a chael profiad dysgu eithriadol.

Ein Prisiau

Cyrsiau Hanner Diwrnod

Mewn person	Ar-lein
£700 + Costau Cludiant	£700
Uchafswm o 18 Mynychwr	Uchafswm o 25 Mynychwr

Cyrsiau Diwrnod Llawn

Mewn- person	Ar-lein
£1250 + Costau Cludiant	£1250
Uchafswm o 18 Mynychwr	Uchafswm o 25 Mynychwr

- Nid yw'r prisiau a restrir yn cynnwys TAW.
- Nid yw'r rhestr brisiau hon yn cynnwys cyrsiau Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Cymru, sydd wedi'u prisio ar wahân

Am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'n cyrsiau neu i archebu, cysylltwch â Learn@storicymru.org.uk

Ein Cyrsiau

Rydym yn cynnig ystod o gyrsiau mewn tri maes craidd:

Cam-drin Domestig a Diogelu

Iechyd Meddwl a Llesiant

Diwylliant a Gwerthoedd Sefydliadol

stori

Helpodd y cwrs fi i ddeall yr effaith mae cam-drin domestig yn ei chael nid yn unig ar ddioddefwyr rydyn ni'n ymgysylltu â nhw ond yr effaith ehangach ar eu teuluoedd."

Dysgwr Effeithiau Cam-drin Domestig ar Blant a Phobl Ifanc

Cam-drin Domestig a Diogelu

Yn Stori, gyda thros 35 mlynedd o brofiad o weithio'n agos gydag unigolion a effeithiwyd gan gam-drin domestig, rydym yn dod â mewnwelediadau dwfn ac ymarferol i gymhlethdodau'r mater hwn. Mae ein profiad helaeth yn sicrhau bod ein hyfforddiant yn cyd-fynd â deddfwriaeth gyfredol ac wedi'i seilio ar ddealltwriaeth o'r byd go iawn, gan ein galluogi i ddarparu canllawiau arbenigol, tosturiol ac effeithiol i gefnogi goroeswyr ac atal cam-drin.

Am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'n cyrsiau neu i archebu, cysylltwch â Learn@storicymru.org.uk

VictimFocus
CHALLENGE | CHANGE | INFLUENCE

Cyrsiau Newydd ar gyfer 2026

Dulliau Gwrth-batholegeiddiol, Ystyrlon o Drawma

Ydych chi'n barod i herio'r status quo mewn iechyd meddwl a gofal cymdeithasol?

Mae ein Hyfforddiant Gwrth-Batholegeiddiol Ystyrlon o Drawma (APTI) yn gwrs grymus sydd wedi'i gynllunio ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd eisiau ailystyried y modd y mae trawma, gofid a gormes yn cael eu deall a'u trin.

Mae'r cwrs hwn yn mynd y tu hwnt i labeli clinigol i archwilio'r modd y mae cymdeithas yn aml yn camddehongli ymatebion i drawma fel salwch meddwl. Byddwch yn edrych ar wreiddiau hanesyddol seiciatreg, yn archwilio'r modd y mae grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio wedi cael eu patholegeiddio, ac yn dysgu sut i symud o fai i ddealltwriaeth.

Beth Fyddwch Chi'n ei Ddysgu

- Gwir ystyr trawma, ymarfer ystyrlon o drawma a gwrth-batholegeiddio
- Hanes iechyd meddwl a'i effaith ar gymunedau sydd wedi'u hymyleiddio
- Sut mae patholegeiddio yn achosi beio dioddefwyr, gwahaniaethu, a gormes systemig
- Sut i adnabod ymatebion, ymddygiadau, a sbardunau trawma

Beth Fyddwch Chi'n ei Ennill

- Dealltwriaeth ddofn o egwyddorion ystyrlon o drawma a gwrth-batholegeiddio
- Offer ymarferol i gefnogi unigolion drwy lens dosturiol, sy'n ymwybodol o ddiwylliant
- Mewnwelediad i sut i arwain newid diwylliant yn eich sefydliad neu gymuned

Cwrs wedi'i drwyddedu gan Victim Focus

stori

Cliciwch ar deitl unrhyw gwrs i weld disgrifiad llawn o’r cwrs.

Dulliau gwrth-batholeigeiddiol, ystyrlon o drawma

5 Awr
£1000
Mae ein hyfforddiant APTI wedi'i gynllunio i helpu gweithwyr proffesiynol i archwilio'n feirniadol y modd y mae llawer yn ystyried ein hymatebion i drawma, gofid neu ormes fel salwch meddwl.

Trais yn Erbyn Rhieni a Cham-drin Rhieni gan Blant a’r Glasoed

Hanner Diwrnod
£700
Cwrs rhagarweiniol sy'n ymdrin â'r ffurf fwyaf cudd o drais teuluol sy’n cael ei gamddeall a’i stigmateiddio – trais yn erbyn rhieni a cham-drin rhieni gan blant a glasoed (CAPVA).

VAWDASV ac Anghenion Cymorth sy’n Cyd-ddigwydd

Diwrnod Llawn
£1250
Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i roi cyflwyniad i effaith trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ar unigolion sydd ag anghenion cymorth sy’n cyd-ddigwydd ac anghenion lluosog.

Cam-drin Domestig a Rheoli Risg

Diwrnod Llawn
£1250
Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i ddarparu’r cyfranogwyr gyda dealltwriaeth gynhwysfawr o ddeinameg cam-drin domestig a'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen i asesu a rheoli'r risgiau cysylltiedig.

Cliciwch ar deitl unrhyw gwrs i weld disgrifiad llawn o'r cwrs.

Rheoli Trawma Dirprwyol

Hanner Diwrnod/Diwrnod Llawn
£700/£1250

Mae trawma dirprwyol yn disgrifio'r effeithiau ar weithwyr proffesiynol o weithio gyda'r trawma y mae ein cleientiaid yn ei brofi. Mae'r hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol i unrhyw un sy'n gweithio i gefnogi eraill, yn enwedig mewn pynciau anodd fel cam-drin, trais a gormes.

Diogelu (Cymru Gyfan) Grŵp B ac C

Diwrnod Llawn
£1250

Mae ein cyrsiau Diogelu wedi'u cynllunio i ddarparu unigolion gyda'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed rhag niwed. Mae'r cyrsiau yn cwmpasu'r polisïau, y gweithdrefnau a'r arferion a gynlluniwyd i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed rhag camdriniaeth, esgeulustod a niwed ledled Cymru.

Effeithiau Cam-drin Domestig ar Blant a Phobl Ifanc

Diwrnod Llawn
£1250

Cwrs sy'n archwilio natur gymhleth cam-drin domestig, sut mae troseddwyr yn defnyddio manipiwleiddio a chydgynllwynio, a'i effaith ar y teulu cyfan, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Deall Cam-drin Domestig ac Ymddygiad Rheolaethol a Gorfodaethol

Diwrnod Llawn
£1250

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i archwilio natur ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol a'i swyddogaeth o fewn perthnasoedd camdriniol. Bydd y cwrs yn cefnogi dysgwyr i nodi mathau o gam-drin ac yn eu cyfarparu i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr.

Gweithio gyda Dioddefwyr Gwrywaidd Cam-drin Domestig

Hanner Diwrnod/Diwrnod Llawn
£700/£1250

Mae'r cwrs hwn yn cynnig persbectif hollbwysig a ddiystyrir yn aml ar gam-drin domestig, gan ganolbwyntio'n benodol ar brofiadau dioddefwyr gwrywaidd. Nod y cwrs yw darparu gweithwyr proffesiynol ac aelodau'r gymuned gyda’r wybodaeth a'r sgiliau i adnabod, ymateb i, a chefnogi dioddefwyr gwrywaidd yn effeithiol.

Gweithio gyda Dioddefwyr LHDT+ Cam-drin Domestig

Hanner Diwrnod/Diwrnod Llawn
£700/£1250

Mae'r cwrs hwn yn darparu persbectif hollbwysig a ddiystyr yn aml ar gam-drin domestig, gan ganolbwyntio'n benodol ar brofiadau dioddefwyr LHDT+. Nod y cwrs yw darparu gweithwyr proffesiynol ac aelodau'r gymuned gyda'r wybodaeth a'r sgiliau i adnabod, ymateb i, a chefnogi dioddefwyr cam-drin LHDT+ yn effeithiol.

“Mae hyn mor bwysig mewn bywyd bob dydd, nid dim ond yn y gwaith. Agoriad llygad go iawn o ran beth i chwilio amdano a sut i helpu pobol a allai fod yn ei chael hi'n anodd. Mae'n rhywbeth sy'n effeithio ar bob un ohonom, roedd yr hyfforddwr yn hyfryd a gwnaeth yn siŵr ein bod ni i gyd yn iawn drwy’r cyfan”.

Dysgwr Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl

Iechyd Meddwl a Llesiant

Mae ein cyrsiau hyfforddi wedi'u cynllunio'n benodol i ddarparu’r cyfranogwyr gyda'r sgiliau a'r wybodaeth hanfodol i gefnogi'r rheiny sy'n profi problemau iechyd meddwl. Drwy godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyflyrau iechyd meddwl, mae ein cyrsiau'n grymuso'r mynychwyr i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu gweithleoedd a'u cymunedau.

stori

Cliciwch ar deitl unrhyw gwrs i weld disgrifiad llawn o’r cwrs.

Iechyd Meddwl a Thai

Diwrnod Llawn
£1250

Mae iechyd meddwl gwael a phroblemau tai yn aml yn gysylltiedig. Mae'r cwrs hwn yn mynd i'r afael â'r croestoriad tyngedfennol rhwng y ddwy agwedd sylfaenol hyn ar lesiant. Mae'r cwrs wedi'i gynllunio ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag unigolion sy'n wynebu heriau yn y ddau faes.

Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl

Diwrnod Llawn
£1250

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i ddarparu dealltwriaeth sylfaenol i gyfranogwyr o iechyd meddwl a salwch meddwl. Mae'r cwrs yn darparu unigolion gyda'r wybodaeth a'r sgiliau i ddeall, cefnogi a hyrwyddo llesiant meddwl ynddynt eu hunain ac eraill.

Ymwybyddiaeth o Hunanladdiad

Diwrnod Llawn
£1250

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i addysgu unigolion am realiti hunanladdiad, gan gynnwys ffactorau risg, arwyddion rhybudd, a sut i gefnogi rhywun a allai fod mewn perygl. Nod y cwrs yw grymuso unigolion i adnabod, ymateb i, a helpu i atal hunanladdiad yn y pen draw.

Adeiladu Ein Hyder wrth Siarad am Iechyd Meddwl

Hanner Diwrnod/Diwrnod Llawn
£700/£1250

Mae'r cwrs hwn yn rhoi amlinelliad o wahanol safbwyntiau athronyddol i edrych ar ein 'hiechyd meddwl' gan gynnwys y model meddygol a dull gwrth-batholegeiddiol, ystyrlon o drawma. Mae'n darparu rhai ymarferion ymarferol ac awgrymiadau penigamp i weithwyr proffesiynol ymgysylltu â'u cleientiaid mewn sgyrsiau am yr hyn sy'n digwydd iddyn nhw'n emosiynol.

Am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'n cyrsiau neu i archebu, cysylltwch â Learn@storicymru.org.uk

Dulliau gwrth-batholeigeiddiol, ystyrlon o drawma

5 Awr
£1000
Mae ein hyfforddiant APTI wedi'i gynllunio i helpu gweithwyr proffesiynol i archwilio'n feirniadol y modd y mae llawer yn ystyried ein hymatebion i drawma, gofid neu ormes fel salwch meddwl.

Rheoli Trawma Dirprwyol

Hanner Diwrnod
£700
Mae trawma dirprwyol yn disgrifio'r effeithiau ar weithwyr proffesiynol o weithio gyda'r trawma y mae ein cleientiaid yn ei brofi. Mae'r hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol i unrhyw un sy'n gweithio i gefnogi eraill, yn enwedig mewn pynciau anodd fel cam-drin, trais a gormes.

stori

Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl

Mae cyrsiau Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl (MHFA) yn gyfres o raglenni hyfforddi achrededig a gydnabyddir yn rhyngwladol ac wedi'u seilio ar dystiolaeth, sy'n grymuso ac yn darparu unigolion â'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i gefnogi ffrind, aelod o'r teulu neu gydweithiwr sydd â phroblem iechyd meddwl neu'n profi argyfwng fel hunanladdiad. Mae ein Cyrsiau MHFA yn darparu tystysgrif achrededig mewn Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Cymru i gynrychiolwyr.

Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Oedolion

Deuddydd

£175 y dysgwr

Mae'r cwrs hwn yn dysgu cyfranogwyr sut i adnabod ac ymateb i arwyddion ac anhwylderau sy'n gysylltiedig â heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae wedi'i gynllunio i roi'r sgiliau angenrheidiol i unigolion ddarparu cymorth cychwynnol nes y gellir cael cefnogaeth broffesiynol.

Ieuenctid a Glasoed Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl

Deuddydd

£175 y dysgwr

Nod y cwrs hwn yw grymuso oedolion i fod yn llinell gyntaf cefnogaeth i bobl ifanc sy'n profi heriau iechyd meddwl, gan helpu i bontio'r bwlch rhwng arwyddiion cynnar a chymorth proffesiynol.

Cwrs Diwddaru Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl

£100 y dysgwr

Mae'r cwrs diweddaru hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y rheiny sydd wedi cwblhau'r cymhwyster Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl o'r blaen. Mae'n orfodol yn y drydedd flwyddyn ar ôl cwblhau'r cwrs gwreiddiol er mwyn cynnal y dystysgrif.

- **Nid yw'r holl brisiau'n cynnwys TAW.**

“Cefais gryn flas ar y cwrs yma. Weithiau dydych chi ddim yn gweld yr arwyddion sydd o’ch blaen chi.”

Dysgwr Cam-drin yn y Gweithle

Diwylliant a Gwerthoedd Sefydliadol

Mae ein hyfforddiant yn helpu sefydliadau i greu amgylcheddau lle mae timau’n teimlo’n saff, yn hyderus, a hapus yn eu rolau. Rydym yn gwneud yn siŵr fod pobl yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt ac yn eu darparu gyda’r offer angenrheidiol i ddelio â heriau, i gyd wrth adeiladu diwylliant gweithle mwy cadarnhaol a chefnogol.

stori

Cliciwch ar deitl unrhyw gwrs i weld disgrifiad llawn o'r cwrs.

Creeu Gweithleodd Diogel: Deall Rheolaeth Orfodol a Cham-drin Domestig

Diwrnod Llawn
£1250

Mae'r cwrs hwn yn archwilio rheolaeth orfodol a'i rôl mewn cam-drin, gan alluogi cynrychiolwyr i adnabod arwyddion a symptomau cam-drin yn y gweithle, datblygu hyder wrth godi pryderon a gwybod sut i gyfeirio pobl at gymorth. Rydym yn edrych hefyd ar y ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â gweithredu polisi gweithle.

Rheoli Bwlio ac Aflonyddu yn y Gweithle

Diwrnod Llawn
£1250

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i ddarparu'r cyfanogwyr gyda'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i atal, adnabod ac ymdrin yn effeithiol â bwlio ac aflonyddu yn y gweithle a meithrin amgylchedd gwaith parchus a diogel.

Ffiniau Proffesiynol

Diwrnod Llawn
£1250

Mae'r cwrs hwn yn edrych ar beth yw ffiniau, sut rydym yn eu sefydlu, pam mae eu hangen arnom, sut y gellir eu hymestyn a beth i'w wneud os bydd hyn yn digwydd. Mae'n ddefnyddiol ar gyfer unrhyw rôl gyda'r cyhoedd. Rydym yn addasu ein cynnwys yn dibynnu ar rôl y dysgwyr a gallwn gynnwys polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad os oes angen.

Diogelu (Cymru Gyfan) Grŵp B ac C

Diwrnod Llawn
£1250

Mae ein cyrsiau Diogelu wedi'u cynllunio i ddarparu unigolion gyda'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed rhag niwed. Mae'r cyrsiau yn cwmpasu'r polisïau, y gweithdrefnau a'r arferion a gynlluniwyd i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed rhag camdriniaeth, esgeulustod a niwed ledled Cymru.

Cliciwch ar deitl unrhyw gwrs i weld disgrifiad llawn o'r cwrs.

Dulliau Cadarnhaol LHDTC+

Hanner Diwrnod/Diwrnod Llawn
£700/£1250

Dyma hyfforddiant diddorol a defnyddiol mewn dulliau cadarnhaol o safbwynt LHDT. Bydd yr hyfforddiant rhyngweithiol, diddorol ac ysgogol hwn yn ddefnyddiol i unrhyw weithiwr proffesiynol gyda'r cyhoedd, yn enwedig y rhai mewn rolau cefnogol. Rydym yn addasu'r cynnwys i sicrhau ei fod yn berthnasol i'r grwpiau rydym yn gweithio gyda nhw.

Ymarfer Niwro-gadarnhaol

Hanner Diwrnod
£700

Mae'r cwrs hwn yn annog safbwynt ar niwroamrywiaeth sy'n ystyrlon o drawma ac nad yw'n patholegeiddio. Rydym yn archwilio ystyr termau fel niwroamrywiaeth, niwroamrywiol, niwrogadarnhaol a niwrogynhwysol. Rydym yn edrych ar rwystrau cyffredin i gefnogaeth ac yn nodi ffyrdd y gall ein harfer a'n gwasanaethau fod yn fwy hygyrch i bawb.

Pam Dewis Stori

Arbenigedd Ymarferol

Gyda thros 35 mlynedd o brofiad ymarferol, rydym yn cynnig hyfforddiant wedi'i seilio ar heriau bywyd go iawn. Mae ein gwybodaeth ymarferol ddofn yn sicrhau bod pob sesiwn yn darparu canllawiau perthnasol, tosturiol ac effeithiol.

Datrysiadau wedi'u Teilwra

Rydym yn addasu ein hyfforddiant i gyd-fynd â'ch nodau - p'un a ydych chi'n dewis cwrs cyfredol neu raglen bwrpasol. Mae pob sesiwn wedi'i chynllunio i fod yn ymarferol, yn berthnasol, ac yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'ch anghenion.

Ansawdd Sicr

Rydym yn falch o fod yn Ganolfan Achrededig Agored Cymru, sy'n ein galluogi i ddarparu cymwysterau o ansawdd sicr a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n bodloni safonau llym ac yn cefnogi dysgwyr i ennill cyflawniadau ystyrlon, achrededig.

Pecyn Cymorth Digidol

Ar gyfer pob un o'n cyrsiau, rydym yn darparu banc o adnoddau digidol sy'n cefnogi dysgu parhaus, gan helpu dysgwyr i ailystyried cysyniadau allweddol a chymhwyso eu hyfforddiant yn hyderus mewn sefyllfaoedd byd go iawn.

Hyfforddwyr Profiadol

Mae ein hyfforddwyr yn arbenigwyr gyda blynyddoedd o brofiad maes. Maent yn dod â mewnwelediadau ymarferol a strategaethau profedig i bob sesiwn, gan wneud eich dysgu yn uniongyrchol berthnasol ac yn effeithiol.

Hyfforddiant Pwrpasol wedi'i Deilwra i Chi

Yn Stori, rydym yn deall bod gan bob sefydliad ofynion hyfforddi unigryw. Rydym yn arbenigo nid yn unig mewn darparu cyrsiau o ansawdd uchel ond hefyd mewn dylunio atebion hyfforddi pwrpasol sy'n ddiddorol, yn berthnasol, ac yn uniongyrchol berthnasol i gyfrifoldebau dyddiol eich tîm.

Os oes gennych anghenion hyfforddi penodol, byddem yn falch o gydweithio â chi i ddatblygu rhaglen sy'n cyd-fynd â'ch amcanion ac yn grymuso'ch tîm i ragori.

Cysylltwch â learn@storicymru.org.uk i drafod sut y gallwn gefnogi twf a llwyddiant eich sefydliad.

Learn@storicymru.org.uk

Stori
Stephens Way
Pensarn
Camarthen
SA31 2BG

Dewch o hyd i ni ar y Cyfryngau Cymdeithasol
@StoriNewChapter